



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3 Mai 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

ADNODDAU ADDOLI

- **Cewch oedfa trwy ddarllediad ar wefan www.youtube.com am 10.30 bob bore Sul.** Mae'r cyswllt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan www.eglwysibroaled.com (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Mae DVD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwyllo a gwrando ar recordiad o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael DVD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrando ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, rhowch wybod i Mair. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwyso '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.
- **Ysgol Sul ar-lein.** Mae Andras a Heledd Iago, Bro Dinbych yn cynnal ysgol Sul ar Zoom am 10.30 ar fore Sul. Ewch i dudalen Facebook Bro Dinbych er mwyn ymuno â nhw.

ADNODDAU DYSGU

- **Ar gyfer rhieni plant, mae gwersi ysgol Sul ar gael dros ebost.** Cysylltwch â Rhodri.
- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael ar ebost neu ar bapur.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.

Cewch adnoddau eraill o bob math ar wefan www.gair.cymru.

LLAIS BRO ALED

Bydd Llais Bro Aled yn parhau i gael ei gyhoeddi bob pythefnos. Cofiwch adael i ni wybod am unrhyw un sydd mewn profedigaeth, yn yr ysbyty neu ar achlysur dathliad arbennig.

BUGEILIO

Dim ond mewn amgylchiadau argyfyngus mae ymweliadau bugeiliol wyneb yn wyneb yn digwydd bellach. Ond wrth gwrs, mae gofal bugeiliol yn parhau trwy gyfrwng y ffôn. Cofiwch hefyd bod cyd-aelodau, blaenoriaid, Rhodri a Mair yn barod iawn i sgwrsio hefo chi os ydych chi dymuno'n ffonio ni.

Erbyn y penwythnos, byddwn yn cychwyn mis arall lle mae'r calendr arferol yn amherthnasol, gwyliau banc yn ddiystyr a hyd yn oed Eisteddfod yr Urdd wedi ei gohirio am flwyddyn. Wn i ddim sut yr ydych chi'n dygymod â'r cyfnod hwn, ond mae'n ddiddorol gweld beth mae pobl wahanol yn tueddu i'w wneud o dan y fath amgylchiadau! Yn ôl yr ystadegau a'r silffoedd gwag yn y siopau, mae nifer cynyddol wedi troi at goginio a phobi adref. Ac yn enwedig dros yr wythnosau braf aeth heibio, bu llawer yn rhoi mwy nag arfer o sylw i'w gerddi. Ymdrechom ni fel teulu hefyd i wneud mymryn o arddio wrth blannu ychydig o lysiau, perlysiâu a blodau gwyllt. Bu'n brofiad braf cael pawb allan yn yr ardd yn gwneud eu rhan wrth i ni baratoi'r tir cyn plannu hadau. Wedyn yr aeth pethau'n anoddach. Nid oherwydd bod y glaw wedi'n stopio rhag mynd allan, ond oherwydd y disgwyl hirfaith i weld arwydd fod yr hyn a blannwyd yn cychwyn egin! Gwnaeth hyn i mi feddwl yn ehangach am amynedd, a'n tueddiad fel pobl i fethu byw yn ein crwyn os nad yw pethau'n dilyn ein agenda neu'n hamserlen ni. Efallai fod rhai ohonoch yn teimlo felly ar hyn o bryd, wedi hen syrffedu ar y cyfyngiadau a'r pryderon sy'n parhau fel cysgod drosom. Sut allwn ni wynebu misoedd yn ychwaneg o hyn?

O droi at Iago 5, gwelwn y cysylltiad rhwng amynedd ac ymddiriedaeth wrth i Iago annog Cristnogion fel hyn yn adnodau 7 ac 8: *'Byddwch yn amyneddgar, gyfeillion, hyd ddyfodiad yr Arglwydd. Gwelwch fel y mae'r ffermwr yn aros am gynnyrch gwerthfawr y ddaear, yn fawr ei amynedd amdano nes i'r ddaear dderbyn y glaw cynnar a diweddar. Byddwch chwithau hefyd yn amyneddgar, a'ch cadw eich hunain yn gadarn, oherwydd y mae dyfodiad yr Arglwydd wedi dod yn agos.'*

Gall ffermwr aros yn amyneddgar am ei gnwd oherwydd ei fod yn ymddiried y bydd y glaw yn dod yn ei amser ac y bydd cynnyrch gwerthfawr i'w gasglu yn y pen draw. Yr un modd, yn ôl Iago, dylai Cristnogion fod yn amyneddgar ac yn gadarn ym mhob gorthrymder oherwydd y gallant ymddiried yn yr Arglwydd fydd yn dod yn ôl.

Yn ystod y cyfnod pryderus hwn beth ddylai fod yn gymorth i'r Cristion yw gweld y cyfan o safbwynt amserlen y Beibl, lle mae'r Duw tragwyddol yn llywodraethu. Rydym ar hyn o bryd yn parhau i fyw mewn byd syrthiedig a thoredig lle mae salwch, anghyfiawnder a phechod yn effeithio ar filiynau o bobl bob dydd. Ond gobaith mawr y Cristion yw na fydd hynny'n wir am byth. Mae'r Beibl yn ein dysgu fod buddugoliaeth Iesu Grist un waith am byth dros bechod, marwolaeth a'r diafol yn mynd i wneud gwahaniaeth tragwyddol i'r rhai sy'n ei garu, ac yn wir i'r holl greadigaeth. Ac mae wedi cychwyn gwneud gwahaniaeth syfrdanol yn barod trwy'r Ysbryd Glân ym

mywydau'r rhai sydd wedi troi ato mewn ffydd. Oherwydd hynny gall Cristnogion wynebu profedigaethau a thrafferthion difrifol yn pwyso ar addewidion megis 'nid atal yr Arglwydd unrhyw ddaioni oddi wrth y rhai sy'n rhodio'n gywir.' (Salm 84:11)

Dydyn ni ddim yn gwybod am ba hyd y bydd y firws Corona yn parhau i effeithio anrom, ond rydym yn gwybod y bydd diwedd rhyw ddydd ar bob afiechyd, anghyfiawnder a phechod, ac y bydd y cyfan yn dod yn realiti wedi i Iesu ddychwelyd mewn gogoniant. Er nad yw hyn yn rhywbeth y byddwch yn debygol o'i ddarllen ar y newyddion, dyma'r pwyslais a fu'n gymorth i Paul ddyfalbarhau trwy ei holl dioddefiadau: 'Dydy'n trafferthion presennol ni'n ddim byd o bwys, a fyddan nhw ddim yn para'n hir. Ond maen nhw'n arwain i fendithion tragwyddol yn y pen draw – ysblander sydd y tu hwnt i bob mesur. Felly mae'n sylw ni wedi'i hoelio ar beth sy'n anweledig, dim ar beth welwn ni'n digwydd o'n cwmpas ni. Dydy beth sydd i'w weld ond yn para dros dro, ond mae beth sy'n anweledig yn aros am byth!' (2 Cor. 4:17-18)

Rhodri

Cofion a Chydymdeimlad

Anfonwn ein cofion atoch oll gan obeithio eich bod yn cadw'n iach. Cofiwch, os oes unrhyw un ohonoch yn gorfod hunan-ynysu gartref ac nad oes gennych rywun i droi ato i ddod â neges a phresgripsiwn neu unrhyw beth arall hanfodol i chi, plis cysylltwch â Rhodri neu Mair ac fe wnawn ein gorau i weld sut allwn eich helpu. Yn yr un modd, mae croeso i chi gysylltu â ni os byddech chi'n hoffi sgwrs.

Gyda thristwch y daeth y newydd yr wythnos ddiwethaf am farwolaeth Mrs Megan Evans (Llansannan). Er na fu'n dda ei hiechyd ers tro, bu iddi ofalu yn dyner am aelodau ei theulu ar hyd y blynyddoedd hyd nes iddi orfod mynd i gartref gofal Bryn yr Eglwys ddwy flynedd yn ôl. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i meibion – Clwyd, Elfed ac Arwel a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â Glenys Jones (Peniel) a Sian E. Jones (Llansannan) a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth o golli eu brawd, Clwyd. Cyflwynwn y teuluoedd hyn i ofal a thangnefedd yr Arglwydd a gweddiwn y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen.

Mae'n dda clywed bod Gwyneth Rawson (Llanfair) yn gwella wedi cyfnod yn yr ysbyty. Gweddiwn y bydd yn profi adferiad a dedwyddwch tra'n derbyn gofal pellach yng nghartref Southern House, Abergele. Anfonwn ein cofion hefyd at ffrindiau eraill sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Mair Williams (Llansannan), a Mrs Gwenllian Jones a Mrs Gwyneth Griffiths (Henllan). Diolchwn am y gofal y maen nhw'n ei dderbyn a gobeithiwn eu bod yn profi gofal a grym ein gweddiâu drostynt.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, DINBYCH LL16 5LF)

Cefnogi eraill

Yn ystod yr argyfwng yma, daeth yr angen i ddangos gofal a chariad ac i gefnogi ein gilydd yn fwy amlwg fyth, ac os na fu i chi fedru ymuno â ni yn yr oedfa bore Sul diwethaf mewn rhyw ffurf neu'i gilydd, byddwch yn siŵr o fod wedi clywed ar y newyddion a rhaglenni eraill am yr angen sydd yn y gymuned o'n cwmpas.

Un o'r ffyrdd y medrwn helpu yw trwy gefnogi **Tarian Cymru**, sef grŵp cymunedol o wirfoddolwyr led-led y wlad sydd wedi ei sefydlu ar ôl clywed y galw gan ffrindiau, teulu a chyd-weithwyr yn y maes gofal iechyd fod bywydau sawl un ohonynt mewn perygl oherwydd diffyg cyflenwad o offer PPE (fel menyg, masgiau, a 'gowns'). Gobaith a nod Tarian Cymru yw codi arian er mwyn gallu cael yr offer angenrheidiol yma i'r gweithwyr llinell flaen cyn gynted ag y bo modd. Maen nhw'n gwneud hyn trwy rwydwaith o bartneriaethau ac arbenigwyr o amgylch Prydain sydd â phrofiad o archebu offer o safon proffesiynol ac mae sefydliadau megis ysbytai, cartrefi gofal, a staff gofal yn medru cysylltu â nhw i ddweud beth yw eu anghenion, ac yna mae Tarian Cymru yn ceisio mynd ati i ddarparu yr hyn sydd ei angen. Felly, os ydych chi mewn sefyllfa i fedru cyfrannu'n ariannol, gallwch wneud hynny trwy'r wefan gofundme.com/tariancymru neu mae croeso i chi anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', ac fe wnawn dalu'r arian dros y we ar eich rhan. Cofiwch nodi 'Tarian Cymru' ar gefn y siec os ydych chi am wneud hynny.

Elusen arall fyddai'n falch iawn o'n cefnogaeth yw **Baby Basics Dyffryn Clwyd** gafodd ei sefydlu ym mis Tachwedd 2019 er mwyn cefnogi mamau a theuluoedd bregus yn yr ardal hon, rhai sydd o bosib mewn amgylchiadau sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gael y pethau mwyaf sylfaenol ar gyfer y babi. Er mwyn cyrraedd y bobl fwyaf bregus maen nhw wedi bod yn cysylltu hefo nifer o weithwyr proffesiynol, e.e. bydwagedd, ymwelwyr iechyd, mudiadau fel y Groes Goch, gwasanaethau cymdeithasol a'r Banc Bwyd, a thrwy'r cysylltiadau yma yn darparu nwyddau sylfaenol i'r mamau sydd â babi newydd ac mewn angen. Mae rhestr o'r hyn y maen nhw'n ei ddarparu ar gael os ydi'n well gennych gyfrannu nwyddau, neu yn ystod y cyfyngiadau presennol, hwyrach bod cyfrannu'n ariannol yn fwy hwylus fel y gallan nhw brynu'r hyn sydd ei angen arnyn nhw.

Yn yr un modd, mae **Banc Bwyd Dyffryn Clwyd** yn hynod brysur y dyddiau hyn a rhai pobl o'n cwmpas yn methu fforddio prynu bwyd. Gan nad ydym yn medru derbyn eich cyfraniadau bwyd yn ein capeli y dyddiau hyn, mi fyddai pob cyfraniad ariannol yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Felly, os dymunwch gyfrannu tuag at Baby Basics neu'r Banc Bwyd, gallwch wneud hynny trwy un taliad neu trwy roi yn rheolaidd – mae ffurflen archeb banc ar gael ar gyfer hynny. Cysylltwch hefo Mair neu Rhodri i gael y manylion, neu gallwch anfon siec i Mair yn daladwy i 'Gofalaeth Bro Aled', fe wnawn dalu'r arian dros y we ar eich rhan. Cofiwch nodi enw'r elusen y dymunwch ei chefnogi ar gefn y siec os ydych chi am wneud hynny.